Y Rhwydwaith Maethu

# Gwrando ar ofalwyr maeth: Pam maent yn gadael, a sut y gallwn

## Canfyddiadau oddi wrth Gyfweliadau Gadael Cymunedau Maethu



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Rhagymadrodd

Rhwng Gorffennaf 2023 ac Ebrill 2025, cynhaliodd Y Rhwydwaith Maethu gyfweliadau gadael gyda gofalwyr maeth a adawodd eu gwasanaeth rhwng mis Mawrth 2023 a mis Mawrth 2025. Ymgymerwyd â'r prosiect hwn i ganfod y ffactorau allweddol sy'n cyfrannu tuag at ofalwyr maeth yn gadael eu gwasanaethau, ac i wneud argymhellion sy'n cynorthwyo gwell recriwtio a chadw gafael.

Roedd y gwaith hwn yn rhan o'r rhaglen Cymunedau Maethu, a ariannir gan Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru.

## Ynglŷn â'r Prosiect

Gwahoddwyd pob gwasanaeth maethu yng Nghymru i gymryd rhan yn y prosiect hwn. Dewisodd un ar ddeg o awdurdodau lleol (Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Gaerfyrddin, Sir y Fflint, Gwynedd*, Sir Fynwy, Casnewydd, Sir Benfro*, Powys, Torfaen, a Wrecsam) a thair asiantaeth faethu annibynnol (Barnardos*, NFA a TACT) gymryd rhan. Atgyfeiriodd y gwasanaethau hyn bob gofalwr maeth a adawodd yn ystod cyfnod y prosiect i'r Rhwydwaith Maethu, a gysylltodd wedyn ag unigolion i gynnig cyfweliad gwirfoddol, annibynnol.

Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaed 193 o atgyfeiriadau gan wasanaethau oedd yn cymryd rhan, gan esgor ar 112 o gyfweliadau a gwblhawyd. O'r rhain, roedd 89 (79%) gyda gofalwyr maeth yn gadael gwasanaeth awdurdod lleol a 23 (21%) o asiantaethau maethu annibynnol. Gwrthododd dau ar bymtheg o ofalwyr maeth â chymryd rhan, tra o ran y gweddill, nid oedd modd cysylltu â 64 neu nid yw cyfweliadau wedi'u trefnu eto.

Ochr yn ochr â chyfweliadau gadael, cynhaliom grwpiau ffocws ym mis Medi 2024 gyda gofalwyr maeth cyfredol a rheolwyr timau gwasanaethau maethu ledled Cymru i gyflwyno'r canfyddiadau o'r 14 mis cyntaf o ddata. Helpodd y trafodaethau hyn i lunio ffocws y canfyddiadau eraill yn yr adroddiad hwn ac i amlygu enghreifftiau o arferion da.

# Crynodeb Gweithredol

Rydym yn ymwybodol bod y canfyddiadau'n dangos un ochr o'r stori o pam mae gofalwyr maeth wedi gadael, ond maent yn dal yn berthnasol a defnyddiol o ran egluro hyd a lled profiadau ledled Cymru i gyn-ofalwyr maeth.

Daw'r adroddiad hwn ar adeg allweddol gan fod nifer y babanod, y plant a'r bobl ifanc mewn gofal wedi bod yn cynyddu yng Nghymru dros y ddwy ddegawd ddiwethaf[1], tra bod nifer y gofalwyr maeth yn parhau i ostwng[2]. Mae llawer o'r canfyddiadau yn anghyfforddus i'w darllen. Rydym yn hynod ddiolchgar i'r holl gyfranogwyr a fu'n ddigon hael i rannu'u hamser a'u profiadau. Parhawn wedi'n hymrwymo i ddefnyddio'r mewnwelediadau hyn i ysgogi newid cadarnhaol, gan weithio gyda'r gymuned faethu i gryfhau cymorth, i wella profiad gofalwyr maeth, ac yn y pen draw i gyflawni gwell deilliannau i fabanod, plant a phobl ifanc.

# Canfyddiadau Allweddol

- Roedd hanner yr holl gyfranogwyr wedi gadael eu gwasanaeth o fewn pum mlynedd o gael eu cymeradwyo, gyda 30% yn gadael yn y 1-3 blynedd gyntaf.
- Diffyg cefnogaeth canfyddiadol oedd y rheswm mwyaf cyffredin dros adael, gyda 42% yn priodoli'u penderfyniad yn llawn neu'n rhannol i hyn. Mae'r nifer hwn yn codi i 50% ar gyfer y rheiny a adawodd o fewn y pum mlynedd gyntaf.
- Dywedodd dros hanner (54%) y cyfranogwyr y gallai'u gwasanaeth fod wedi gwneud rhywbeth yn wahanol i'w galluogi i barhau i faethu - yn fwyaf cyffredin, cynnig gwell cymorth neu gymorth mwy cyson.
- Roedd materion yn ymwneud â pharu yn thema allweddol, gyda 23% o atebwyr yn teimlo nad oeddynt wedi'u paru'n briodol â'r plant yn eu gofal.

* Roedd y gwasanaethau hyn yn gysylltiedig â'r prosiect ond ni chyfwelwyd ag atgyfeiriadau yn y garfan hon.

[1] Llywodraeth Cymru (2025) [Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth fesul awdurdod lleol a math o leoliad]

[2] Maethu Cymru (2024) [Adroddiad Blynyddol 2023/24]

- Er yr heriau a wynebwyd, dywedodd 57% o gyfranogwyr y byddent yn ystyried maethu eto, a dywedodd 80% y byddent yn argymell maethu i eraill.
- Teimlai ychydig yn llai na hanner y cyn-ofalwyr maeth (48%) fod diweddiad eu cymeradwyaeth wedi bod yn broses nas cynlluniwyd.

# Argymhellion

Amlinellodd yr argymhellion canlynol y newidiadau y credwn y dylai Llywodraeth Cymru eu blaenoriaethu er mwyn recriwtio a, yn hanfodol, gallu cadw gafael ar fwy o ofalwyr maeth ledled Cymru. Bydd y newidiadau hyn yn golygu y caiff babanod, plant a phobl ifanc y gofal cywir, yn y lle cywir, ar yr adeg gywir. Cynhwysir argymhellion arferion da ar gyfer gwasanaethau ar ddiwedd yr adroddiad. Dylid ystyried yr argymhellion hyn ochr yn ochr â'n hymchwil 2023 ni i gadw gafael a recriwtio gofalwyr maeth yn Lloegr gan fod llawer o'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad hwnnw yn cyd-fynd yn gyson â'r canfyddiadau o Gymru.

## Hyblygrwydd:

- Diwygio rheoliadau i sicrhau bod gwasanaethau a gofalwyr maeth yn gwybod am yr hawl i gymryd seibiant o faethu, gyda graddfeydd amser pendant a pha asesiadau neu wiriadau sy'n ofynnol wrth ddychwelyd.

## Cymorth:

- Parhau i ariannu'r rhaglen 'Maethu Lles' i gynorthwyo gofalwyr maeth ac i dyfu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r parch tuag at rôl y gofalwyr maeth yn y tîm o amgylch y plentyn.
- Archwilio'r buddion o ehangu rhaglen Mockingbird, sydd ar hyn o bryd ond yn cael ei darparu gan un awdurdod lleol, i wella cadw gafael ledled Cymru.
- Cyflwyno mesurau newydd i roi sylw i drosiant a llwythi achosion gweithwyr cymdeithasol, sy'n effeithio ar y cysondeb a'r cymorth i deuluoedd maeth. Gall hyn gynnwys cyflwyno deddfwriaeth ynglŷn â llwythi achos a phatrymau sifftiau i ddisodli'r diwrnod cyfredol o 9.00yb tan 5.00yp ar gyfer gweithwyr cymdeithasol, yn ogystal â chymorth cadarn y tu allan i oriau swyddfa ac adolygu fframweithiau cymwysterau gweithwyr cymdeithasol a systemau cylchdroadol i'r rheiny sydd newydd gymhwyso.

- Diwygio rheoliadau i sicrhau bod pob gofalwr maeth yn gallu cael at berson cymorth cymeradwy a gaiff ei asesu i ddarparu gofal dros nos neu ofal cyfnod hwy i'r plant y maent yn eu maethu.

### Cysondeb:

- Diwygio rheoliadau i sicrhau y gweithredir ac y monitrir polisi ac ymagwedd paru sydd wedi'u safoni ledled Cymru.
- Cwmpasu, ymgynghori a chyflwyno cofrestr ar gyfer gofalwyr maeth yng Nghymru i gyfrannu rhywfaint tuag at roi sylw i bryderon am statws a pharch i'r rôl, i wneud y defnydd gorau o'r gofalwyr maeth yng Nghymru ac i sicrhau gwell paru.
- Gwella modd o gasglu data cenedlaethol am faethu a rhoi cyhoeddusrwydd i'r data hwn i sicrhau gwelliant parhaus a gweithredu pendant i wella recriwtio a chadw gafael ar ofalwyr maeth yng Nghymru. Er enghraifft, gellir cymharu data am gyfweliadau gadael ar lefel genedlaethol.
- Rheoleiddio i gyflwyno proses cyfweliadau gadael maethu safonol a dyrannu staff i barhau i ddarparu'r gwasanaeth hwn ar lefel leol.

## Cymorth

Roedd thema 'cymorth' yn gyffredinol trwy gydol y cyfweliadau, gyda rhai'n canfod bod eu gwasanaeth wedi'u cynorthwyo yn wirioneddol dda ac eraill yn rhoi gwybod am ddiffyg canfyddiadol o gymorth.


**Pwysigrwydd rhwydwaith cymorth**

Er mwyn i blant ffynnu mewn teuluoedd maeth cynaliadwy, cydnerth, dylai pob gofalwr maeth allu cael at rwydwaith cymorth. Gall gwasanaethau wneud mwy i sicrhau bod gan eu gofalwyr maeth rwydwaith o gymorth o'u hamgylch. Dylai gofalwyr cymorth neu oedolion arwyddocaol gael eu hasesu, eu cymeradwyo a'u cynorthwyo i ddarparu seibiannau rheolaidd, naturiol. Mae hon yn ffordd sy'n canolbwyntio ar y plentyn i sicrhau bod anghenion pawb ar yr aelwyd yn cael eu diwallu, gan leihau gorludded i ofalwyr maeth ac ansefydlogrwydd i blant.

Cyfeiriodd cyfranogwyr at y cymorth a roddir gan weithwyr cymdeithasol plant, eu gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol eu hunain a chymorth y tu allan i oriau swyddfa.

### "Pan gysylltais am gymorth a gofyn am gymorth, roeddynt yn chwim ac yn gefnogol."

Gofynasom i gyfranogwyr pa rwydweithiau cymorth roedd ganddynt ar waith fel gofalwyr maeth.  Dim ond 31% a roes wybod bod ganddynt oedolyn arwyddocaol cymeradwy i'w cynorthwyo.




I'r rheiny a soniodd am 'ddiffyg canfyddiadol o gymorth' wrth ddisgrifio'u rheswm dros adael eu gwasanaeth, roedd 55% yn cyfeirio'n llwyr neu'n rhannol at yn gyffredinol o fewn y gwasanaeth, gan yn aml grybwyll "rheoli".  Siaradodd 38% am eu gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol, a chyfeiriodd 23% at weithiwr cymdeithasol y plentyn.  Thema gyffredin, yn neilltuol yn ymwneud â diffyg canfyddiadol o gymorth gan weithwyr cymdeithasol y plant a goruchwyliol, ill dau, oedd eu bod yn newid yn fynych.

### "Ni roddodd yr awdurdod lleol ddigon o gymorth imi – roeddynt ond yn dod allan bob tri mis.  Pan ofynnais am gymorth, ni wnaeth neb fy helpu.  Efallai petawn wedi cael mwy o gymorth, byddai ef yn dal i fod yma.  Ni chefais gymorth gan fy ngweithiwr cymdeithasol goruchwyliol na gan fy ngweithiwr cymdeithasol plant."


I'r rheiny a nododd fod 'cymorth' yn rhywbeth a wnaeth eu gwasanaeth yn dda, cyfeiriodd 67% yn rhannol neu'n llawn at y gwasanaeth yn ei gyfanrwydd. Mae'n debygol bod hyn o ganlyniad i'r ffordd y geirir y cwestiwn – 'Beth a wnaeth eich gwasanaeth maethu chi'n neilltuol o dda?' – gan nad yw hyn yn awgrymu bod yn benodol am dimau/unigolion ac ati. Fodd bynnag, cyfeiriodd 30% at eu gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol fel rhywun a ddarparodd gymorth da, soniodd 7% fod rhwydwaith cymorth gofalwyr maeth eraill yn werthfawr, a dim ond 2% a grybwyllodd weithiwr cymdeithasol y plentyn.

Trwy gydol yr adroddiad hwn, cyfeiriwn at gymorth drwyddi draw, gan dimau, gweithwyr cymdeithasol plant a gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol. Mae'r tîm o amgylch y plentyn yn cynnwys llawer o bobl – nid yw cymorth da gan un ymarferwr yn lliniaru cymorth gwael gan ymarferwr arall.

# Canfyddiadau Cyffredinol

## Oed cyn-ofalwyr maeth

Roedd bron i chwarter y cyfranogwyr dros 66 mlwydd oed, ac roedd 4 o'r rhain yn gadael oherwydd eu bod yn ymddeol. Fodd bynnag, fel y dengys y siart isod, siaradasom hefyd gyda nifer sylweddol o gyfranogwyr oedd rhwng 26 a 55 mlwydd oed, gan ddangos lledaeniad eitha' cyfartal ledled yr ystodau oed.





## Cynlluniwyd ynteu Nas Cynlluniwyd

Dywedodd ychydig dros hanner yr atebwyr fod eu penderfyniad i adael maethu wedi'i gynllunio (52%). Teimlai'r 48% arall fod diweddiad

cymeradwyaeth wedi bod yn broses nas cynlluniwyd. Roedd 15% wedi'u cymeradwyo'n flaenorol, gydag 85% yn diweddu'u cymeradwyaeth gyntaf a'u hunig gymeradwyaeth fel gofalwr maeth cyn cymryd rhan yn y cyfweliad gadael.

## Effaith ar Blant

I ychydig dros hanner y teuluoedd maethu a gymerodd ran yn y cyfweliadau (51%), ni wnaeth diweddiad y gymeradwyaeth arwain at angen symud plant. I'r 49% sy'n weddill, symudwyd 13% o blant i leoliad maethu arall, dychwelwyd 4% at eu rhieni, symudwyd 4% i fyw'n annibynnol, a symudwyd 1% i ofal gan berthynas. Roedd gweddill y garfan yn cwmpasu amrywiaeth o resymau eraill, yn cynnwys Cysylltu Bywydau, Pan Fydda i'n Barod, neu symud gyda'r gofalwr maeth i'w gwasanaeth newydd.





Gofynasom amrywiaeth eang o gwestiynau i'r cyfranogwyr, yn cwmpasu pam y gwnaethant benderfynu maethu, a pham y gwnaethant benderfynu gadael eu gwasanaeth.

## Hyd y gymeradwyaeth

Cymeradwywyd y cyfranogwyr y gwnaethom eu cyfweld fel gofalwyr maeth am gyfnodau amser yn amrywio o lai na mis i bron i 30 mlynedd.

O’r cyn-ofalwyr maeth a gymerodd ran, y cyfnod mwyaf cyffredin i ddewis gadael eu gwasanaeth oedd rhwng 1 a 3 blynedd ar ôl cymeradwyaeth (30%), sy’n dynodi angen am gymorth mwy cydnerth yn ystod cyfnodau cynnar maethu.  Dilynir hyn yn agos gan bobl yn gadael o fewn 10-20 mlynedd (28%).





Rhywbeth sy’n destun pryder yw bod 50% o’r cyfranogwyr wedi gadael cyn 5 mlynedd ar ôl cymeradwyaeth, sy’n dynodi problemau yn ymwneud â chadw gafael.  Mae’n rhaid rhoi sylw i hyn ar fyrder er mwyn sicrhau y caiff yr amser, yr arian ac adnoddau eraill a warir ac a dreulir ar recriwtio a chymeradwyo gofalwyr maeth eu buddsoddi’n briodol.

Yn ogystal, mae’n destun pryder neilltuol canfod bod 6% o’r cyfranogwyr wedi gadael eu gwasanaeth o fewn llai na blwyddyn ar ôl cymeradwyaeth.

## Cymhelliant i Faethu

Gofynasom i gyfranogwyr beth oedd eu cymhelliant i ddechrau maethu, a chanfuom fod yna amrywiaeth o resymau, yn aml cyfuniad o ffactorau yn hytrach nag un funud neu ddigwyddiad unigol.




Y cymhelliant uchaf i faethu oedd 'profiad proffesiynol' blaenorol - a oedd yn cynnwys profiad mewn proffesiynau megis nyrsio, addysgu, gofal plant, gofal preswyl i blant, ac yn y blaen, a gweld yr angen am ofal maeth. Dilynwyd hyn yn agos gan ymdeimlad bod maethu'n rhywbeth roedd cyfranogwyr 'bob amser eisiau'i wneud' - yn aml, ynghyd â ffactorau eraill megis newidiadau mewn amgylchiadau bywyd a olygai y gallent yn awr ddechrau ar y rôl.

**"Roedd arnaf eisiau rhoi rhywbeth yn ôl i blant a phobl ifanc - roeddwn yn ymwybodol bod angen cynifer yn rhagor o ofalwyr maeth ac roedd arnaf eisiau gwneud fy rhan i helpu."**

Rhoes 18% o gyfranogwyr wybod eu bod yn cael eu cymell gan 'syndrom y nyth gwag' ar ôl i'w plant biolegol dyfu a symud ymaith o'r cartref. Cafodd yr un nifer eu cymell gan gael 'hysbrydoli gan eraill' sy'n maethu, megis cyfeillion, aelodau'r teulu, a chydweithwyr.


Dywedodd 14% o gyfranogwyr mai eu profiad personol nhw o adnabod rhywun oedd wedi'i faethu, neu o fod wedi cael cysylltiad â gofal cymdeithasol yn eu teulu ehangach, yw'r hyn a'u hysgogodd i faethu. Ysgogwyd canran gyfartal gan eu dymuniad 'i wneud gwahaniaeth' – hyn hefyd oedd y cymhelliant uchaf i faethu yng Nghymru yn ein harolwg Cyflwr y Cenhedloedd 2024.[3]

[3] T. Covell, S. Ellis, N. Williams (2025) State of the Nations' Foster Care Spotlight on Wales Report 2024, Y Rhwydwaith Maethu

Cymhelliannau eraill i faethu oedd: eisiau gweithio gyda phlant a phobl ifanc (8%); anffrwythlondeb (7%); roedd ganddynt ystafelloedd wrth gefn (7%); roeddynt wedi maethu'n flaenorol (5%); roedd ganddynt brofiad gofal (4%); maent yn hoffi tŷ prysur (3%); roeddynt wedi ysgaru (2%); roeddynt wedi dechrau fel gofalwyr sy'n berthynas (2%); clywsant/gwelsant hysbyseb ar gyfer maethu (2%); roedd arnynt eisiau newid gyrfa (1%); roeddynt yn gwpwl LHDTC+ / LGBTQ+ (1%).

## Rhesymau dros adael

Gofynasom i gyfranogwyr: 'O ystyried eich holl brofiadau fel gofalwr maeth, a allwch egluro'r rhesymau pam rydych wedi penderfynu gadael y gwasanaeth maethu?'. Roedd yr atebion yn eithriadol amrywiol a manwl, ac yn aml, yn gyfuniad o ffactorau a arweiniodd at bobl i adael eu gwasanaeth. Rydym wedi categoreiddio pob un o'r profiadau unigryw, ac, yn aml, anodd iawn hyn, i fod yn themâu allweddol i roi trosolwg ar pam mae pobl wedi gadael eu gwasanaeth. I'r rheiny sydd wedi bod yn maethu ers llai na 5 mlynedd, roedd y rhesymau dros adael yn gyffredinol yr un fath, er bod diffyg canfyddiadol o gymorth wedi codi i 50% o atebwyr.




## Cymorth

Yn anffodus, roedd y prif reswm dros adael o ganlyniad i 'ddiffyg canfyddiadol o gymorth' oddi wrth y gwasanaeth maethu, gyda 42% o atebwyr yn priodoli'u penderfyniad yn llwyr neu'n rhannol i hyn.

**"Roeddwn wedi fy nadrithio a'm siomi â'r system.  Ni theimlwn fy mod yn cael fy nghefnogi gan y tîm maethu."**

**"Nid oedd gen i gysylltiad â neb, ni welais SSW – newidiwyd fy SSW cyntaf ac wedyn ni welais fy SSW newydd."**

## Amgylchiadau personol

Roedd ychydig dros chwarter (26%) y cyfranogwyr wedi cael 'amgylchiadau personol' a arweiniodd iddynt adael maethu, megis perthynas newydd, plant biolegol yn sefyll arholiadau, dod yn daid a nain, a'u lles eu hunain yn dirywio.

Yn amlwg, roedd yr amgylchiadau hynny y tu hwnt i ddylanwad y gwasanaeth maethu neu'r unigolyn.  Fodd bynnag, gofynnodd rhai atebwyr am egwyl neu seibiant byr i reoli sefyllfa benodol yn eu teuluoedd, a chan na chaniatawyd hyn, roeddynt wedi penderfynu gadael eu gwasanaeth.

**"Teimlwn bob amser fy mod yn cael fy nghynorthwyo gan fy SSW, ac yna cefais brofedigaeth a newid SSW, a dyma pa bryd y newidiodd y ddynameg.  Roedd y panel yn gefnogol a chydymdeimladol iawn, ond dywedodd fy SSW wrthyf y dylwn ymddiswyddo gan na allwn gymryd lleoliadau."**

**"Roeddwn yn rhy chwim i adael maethu.  Gadawodd fy SSW, roeddwn i [wedi cael profedigaeth}, a phan ddechreuodd ein SSW newydd yn y gwaith a fy holi am hyn a llall, roeddwn cymaint ar ei hôl hi gyda phopeth, ac roeddwn mor emosiynol, gweithredais yn fyrbwyll ac ymddiswyddais, rhywbeth rwyf yn ei edifar yn awr."**


## Paru

Y trydydd rheswm uchaf oedd 'paru', lle y teimlai 23% o atebwyr nad oeddynt wedi'u paru'n briodol â'r baban, y plentyn neu'r person ifanc roeddynt yn gofalu amdano ar yr adeg neu'n flaenorol.  Yn ogystal â hyn, dywedodd 9% fod 'chwalu lleoliad' yn rhan o'r rheswm iddynt adael eu gwasanaeth.

**"Mae arnom angen cael yr holl wybodaeth.  Mae bod yn barod yn gyfystyr â rhybuddio o flaen llaw."**

**"Teimlwn y byddai pobl ifanc yn elwa o gael person gwryw yn y tŷ, gan yr oeddwn yn byw ar fy mhen fy hun ac roeddwn yn ofalwr sengl ….. ni chafodd y person ifanc y cymorth roedd arno/arni'i angen ac roedd yna drafferthion ymddygiad, ac roedd y person ifanc ond yn mynd yn fwy ac yn gryfach."**

Gofynasom, ar raddfa o 1 i 10, pa mor dda y teimlwch fod y plant y gofynnwyd ichi ofalu amdanynt wedi'u paru â'ch teulu a'ch sgiliau.




Y sgôr mwyaf cyffredin oedd 10, sy'n awgrymu nifer fawr o brofiadau cadarnhaol.

Fodd bynnag, pan wnaethom adolygu'r atebion a roddwyd ochr yn ochr â'r sgôr rhifiadol i sicrhau rhagor o fewnwelediad, dywedodd rhai a roes sgôr o 8 neu uwch eu bod yn meddwl am blentyn penodol, a bod yna sefyllfaoedd eraill lle y byddai'r sgôr wedi bod yn is.

**"10 ond roedd yna gwpwl o adegau y byddai hyn wedi bod yn 1."**

**"Roedd ein lleoliad cyntaf yn 9.5, roedd yr 2ail leoliad yn 0.  Mae paru mor bwysig – dyma lle y collasom hyder yn y tîm."**

Ni wnaeth 11 o atebwyr roi rhif, gan naill ai bwrw sylw nad oeddynt yn credu bod paru wedi digwydd gan mai ond ychydig o ofalwyr maeth oedd ar gael, neu nad oeddynt erioed wedi cael plentyn wedi'i leoli gyda nhw.

**"Ni fu yna unrhyw baru erioed – roedd hi fel petai gennym achosion brys bob amser."**

**"Ni allaf wirioneddol fwrw sylw am hyn - mewn 3 blynedd, dim ond wedi cael dau blentyn, ac roedd 1 am ofal dydd."**

## Rhywun yn dweud wrthyf am adael

Teimlai 13% o'r atebwyr y 'dywedwyd wrthynt' am adael maethu. Teimlai llawer o ofalwyr maeth a roes wybod am hyn eu bod ond wedi dymuno cael seibiant am ychydig fisoedd. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn opsiwn, a dywedwyd wrthynt am adael y gwasanaeth os nad oeddynt yn derbyn plant.

Roedd rhywun yn 'dweud wrthych am adael' yn uwch i'r rheiny oedd yn maethu am lai na 5 mlynedd - 21% o atebwyr.

Rhoes ein grwpiau ffocws adborth bod 'dweud wrthych am adael' yn annhebygol o ddigwydd, ond soniodd llawer o'r atebwyr am ddiffyg dealltwriaeth gan eu gwasanaeth pan newidiodd eu hamgylchiadau - a orffennodd gyda diweddiad eu cymeradwyaeth.

**"Cefais alwad ffôn yn ddiweddar pan oeddynt yn gwybod fy mod yn feichiog a gofynasant pam nad oeddwn wedi dweud wrthynt. Gwnaethant fy nghynghori i ymddiswyddo gan nad oeddynt yn credu y byddwn yn ymdopi gyda baban newydd gan y byddai gen i ormod o waith, ac nad oeddynt yn credu y byddai'r panel yn cymeradwyo."**

Mewn rhai achosion, roedd hi'n eglur nad oedd atebwyr wedi llwyr ddeall pam oedd eu cymeradwyaeth wedi'i diweddu.

**"Fe'n gwnaed inni adael - nid oedd arnom eisiau gadael, y nhw a wnaeth ddiweddu'n cymeradwyaeth....Yn ôl y sôn, ni wnaethom fodloni'r meini prawf i ofalu amdanynt mwyach – ni wyddom pam,**

## ni chawsom unrhyw adborth ac ni roddwyd y cyfle inni unioni pethau."

### Teimlo gwerthfawrogiad

Nid oedd 10% yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan eu gwasanaeth, a gyfrannodd tuag at eu penderfyniad i adael.

## "Teimlem yr edrychid i lawr arnom ac nid yn ased a werthfawrogwyd."

## "Roedd yr awdurdod lleol yn chwilio am leoliadau, a byddwn yn rhoi fy hun gerbron, ond ni chlywn ganddynt. Nid oeddwn yn gweld y diben o barhau."

Mae hi hefyd yn bwysig nodi fod nifer fechan o'r rheiny a roes wybod y 'dywedwyd wrthynt am adael' yn dilyn cyngor gan eu gwasanaeth maethu annibynnol, a argymhellodd drosglwyddiad i ganiatáu gwell lefel o gymorth personol yn y cnawd.

### Symud gwasanaethau

Roedd 8% yn gadael eu gwasanaeth i symud i wasanaeth arall, naill ai oherwydd eu bod yn symud ardal neu'n teimlo fel pe na bae'u gwasanaeth yn darparu'r hyn roedd arnynt ei angen iddynt.


### Rhesymau eraill

Roedd rhesymau eraill yn cynnwys: y gofalwr maeth yn wynebu problemau iechyd (6%) neu aelod o'u teulu yn wynebu problemau iechyd (5%); y gofalwr maeth yn wynebu honiad neu ei fod yn annedwydd gyda sut y cafodd honiad ei drin (4%); ddim yn cael unrhyw blant i ofalu amdanynt (4%); dechrau ar gytundebau mabwysiadu neu Orchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig (4%); ymddeoliad (4%); cael cyfleoedd gyrfa eraill y tu allan i faethu (3%); dechrau ar leoliad Pan Fydda i'n Barod (2%); profi oediadau i gael cymeradwyaeth ar gyfer aelod newydd o'r aelwyd (2%); ac ymdeimlad cyffredinol o fod yn annedwydd (1%).

## "Mae'r ymdeimlad cymunedol o faethu wedi diflannu ac mae yna ddiffyg cymorth."

## Cymorth i barhau i faethu

Dywedodd dros hanner yr atebwyr (54%) y gallai'u gwasanaeth fod wedi gwneud rhywbeth yn wahanol i'w galluogi i barhau i faethu. Mewn geiriau eraill, gallent fod wedi cael eu cynorthwyo i barhau i faethu gyda'u gwasanaeth.




Dywedodd dros hanner (51%) y byddent wedi parhau'n gymeradwy fel gofalwr maeth petaent wedi cael mwy/gwell cymorth gan eu gwasanaeth.

**"Nid yw gweithwyr cymdeithasol yn sylweddoli mor gryf yw'ch ymlyniad wrth y plentyn – dônt yn rhan o'ch teulu a'ch calon. Pan maent yn symud, mae arnoch angen gwybod eu bod yn iawn, ac nid yw gweithwyr cymdeithasol yn hoffi ichi ofyn – maent yn ei weld fel gwendid, ond rydym yn malio."**

Yn ychwanegol, teimlai 23% y gallai'u gwasanaeth fod wedi gallu bod yn gwrando'n well arnynt, ac roedd ar 21% eisiau i'w gwasanaeth eu gwerthfawrogi. Mae hyn yn amlygu bod rhai gofalwyr maeth yn teimlo nad ydynt yn derbyn y driniaeth na'r parch y maent yn ei deimlo sy'n briodol, gan beri iddynt deimlo nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi'n ddigonol ac nad oes neb yn gwrando arnynt.

**"Gallent fod wedi gwrando mwy arnaf – teimlai'r gweithiwr cymdeithasol ei bod hi'n adnabod y plentyn yn well na fi fy hun – roedd hi ond wedi cyfarfod â nhw ychydig o weithiau."**

Byddai 16% wedi aros petai'r paru wedi bod yn well, gan eu bod wedi teimlo yn aml na allent ddarparu'r lefel gywir o ofal i'r plant roeddynt wedi'u paru â nhw, neu ei fod yn anaddas gyda'r plant eraill yn y cartref, megis plant biolegol, plant maeth eraill ac wyrion.

Dywedodd 13% o'r cyfranogwyr y byddent wedi parhau i faethu petai'u gwasanaeth wedi caniatáu iddynt gael seibiant estynedig, efallai am chwe mis i flwyddyn. Roedd hyn yn aml ar ôl diweddiadau nas cynlluniwyd neu amgylchiadau personol heriol.

**"Dywedais wrth yr awdurdod lleol y bydd arnaf angen meddwl am fy nyfodol, gan ei fod wedi bod yn drawmatig iawn gyda'r plentyn yn rhedeg ymaith oddi wrthym. Dywedwyd wrthyf am frysio gyda fy mhenderfyniad – ni ddaeth neb heibio i fy ngweld, a theimlais fy mod yn cael fy rhuthro i roi'r gorau iddi."**

**"Rhowch fwy o amser inni – roeddem yn ymwybodol ein bod yn dychwelyd at y panel ac roeddem yn bendant yn teimlo'r pwysau hyn i dderbyn lleoliad arall, hyd yn oed pan nad oeddem yn barod."**

Amlygodd eraill broblemau yn y gwasanaeth y gellid fod wedi'u gwella, gyda 10% eisiau gwell tryloywder gan eu gwasanaeth. Roedd hyn yn aml yn ymwneud â rhannu gwybodaeth gywir a manwl am y plentyn/plant a leolwyd gyda nhw cyn iddynt gyrraedd. Byddai hyn yn sicrhau eu bod wedi paratoi'n llawn i ofalu am, a diogelu'r plentyn, yn ogystal ag aelodau eraill o'r aelwyd. Yn ychwanegol, rhoes 7% wybod y gellid fod wedi'u cadw petai'r cysondeb yn eu gwasanaeth a rhwng gwasanaethau wedi bod yn well. Roedd sylwadau yn y categori hwn yn ymwneud â'r negeseuon roeddynt wedi'u derbyn gan wahanol dimau yn y gwasanaeth a'r cymorth/buddion ariannol a gynigiwyd gan wahanol wasanaethau.

Dywedodd rhai cyfranogwyr (8%) petai seibiannau byrion rheolaidd o'u rhwydwaith cymorth eu hunain wedi bod ar gael neu petai gofalwyr maeth eraill wedi bod ar gael, gallent fod wedi parhau i faethu gyda'u gwasanaeth.

## "Mae arnom angen seibiannau byrion i ymadfer a chael ein cefn atom."

Roedd ar 7% o atebwyr eisiau mwy o hyblygrwydd gan y gwasanaeth, yn neilltuol yn ymwneud â hyfforddiant ar gyfer gofalwyr maeth seibiant byr, sy'n gorfod gwneud yr un hyfforddiant â gofalwyr maeth amser llawn. Darperir hyfforddiant fel arfer ar ddyddiau'r wythnos waith, ac felly gall hi fod yn anodd ei gyrchu i'r rheiny sy'n gweithio amser llawn yn ystod yr wythnos ac sy'n gobeithio darparu gofal maeth seibiant byr ar y penwythnosau.

Yn olaf, byddai 5% wedi gwerthfawrogi cael cyfleoedd eraill ar gyfer defnyddio'u sgiliau. Roedd hyn yn cynnwys gofalwyr maeth na allai mwyach faethu'n amser llawn ond a fyddai wedi bod yn barod ystyried dod yn ofalwyr seibiannau byrion, neu ddarparu cymorth i gyd-ofalwyr maeth. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn opsiwn a gynigiwyd iddynt.

**“Nid fy nymuniad i oedd ymddiswyddo... teimlem wedi’n gorfodi i adael.”**

**Rhaglen Mockingbird**

Mae Mockingbird, a gyflenwir gan Y Rhwydwaith Maethu yn y Deyrnas Unedig, yn fodel sy’n seiliedig ar dystiolaeth o ofal maeth a strwythurwyd o amgylch y cymorth a’r perthnasoedd y mae teulu estynedig yn ei ddarparu.


Mae Mockingbird yn adeiladu cymunedau o chwech i ddeg o deuluoedd maeth o’r enw ‘cytserau’. Arweinir pob cytser gan ofalwr cartref hwb a gweithiwr cyswllt. Gall gofalwyr cartref hwb wedyn gynnig aros fwrw’r nos, yn ogystal â gweithgareddau cymdeithasol i gryfhau perthnasoedd rhwng plant a theuluoedd maeth, a sefydlogrwydd i fabanod, plant a phobl ifanc sy’n derbyn gofal.

Mae’r model yn meithrin y perthnasoedd rhwng babanod, plant, pobl ifanc a theuluoedd, gan eu cynorthwyo i adeiladu cymuned gydnerth a gofalgar.

Er mwyn sicrhau bod gan bob teulu maeth fodd o gael at seibiannau rheolaidd, wedi’u cynllunio mewn ffordd sy’n canolbwyntio ar y plentyn, byddem yn annog Llywodraeth Cymru i ariannu Mockingbird mewn awdurdodau lleol ledled Cymru.

## Yr hyn y gall y gwasanaeth ei wella

Wedyn, gofynasom pa bethau y gall y gwasanaeth eu gwella. Roedd yna ystod eang o atebion, a dangosir yr atebion uchaf yn y graff isod.




Y peth uchaf a ddywedodd atebwyr y gall eu gwasanaeth ei wella oedd 'cymorth', gyda bron i draean (30%) yn crybwyll hyn. Dilynwyd hyn yn agos gan 15% yn dweud y gall eu gwasanaeth fod yn well am wrando ar ofalwyr maeth, ac 11% yn dweud y gallant wella'r ffordd y maent yn gwerthfawrogi gofalwyr maeth.

**Awgrym ar gyfer ymarfer da – buddion atgyfeirio**

O ystyried bod 80% wedi dweud y byddent yn dal i argymell maethu, byddem yn awgrymu bod gwasanaethau yn cynnal perthynas gyda gofalwyr maeth wedi iddynt ymddiswyddo, gan y gallant ddal i atgyfeirio pobl i'r gwasanaeth.

Yn ychwanegol, dywedodd 15% y gallai'u gwasanaeth wella'u cyfathrebu. Roedd hyn yn neilltuol yn ymwneud â diweddariadau yn y gwasanaeth, megis staff yn gadael/yn ymuno, yn ogystal â chyfathrebu rhwng timau yn y gwasanaeth.

**"Mae gofyn i gyfathrebu fod yn well – mae gofyn iddynt fod yn agored a didwyll gyda gofalwyr, gan y bydd hyn yn helpu."**


Yn ogystal â hyn, dywedodd 14% y gallai'u gwasanaeth wella tryloywder. Roedd hyn gan mwyaf yn ymwneud â'r wybodaeth roedd gofalwyr maeth yn ei derbyn am blentyn cyn i'r plentyn fynd i'r cartref, neu hyd disgwyliedig y gofal. Credai 12% hefyd y gall y gwasanaeth wella cysondeb. Roedd hyn yn ymwneud y gwahaniaethau yn yr hyn y mae'r babanod, y plant a'r bobl ifanc yn ei dderbyn, yn ogystal â'r hyn y mae gofalwyr maeth yn ei dderbyn rhwng

gwahanol wasanaethau, ac weithiau o fewn yr un gwasanaeth. Mae cael eich trin yn wahanol heb unrhyw eglurhad eglur yn arwain at golli gofalwyr maeth yng Nghymru.

Credai 12% hefyd y gallai'r hyfforddiant gael ei wella gyda mwy o bynciau penodol yn cael eu cwmpasu, yn ogystal â'i wneud yn fwy diddorol - "nid marwolaeth trwy PowerPoint".

Roedd categorïau eraill o bethau y gall y gwasanaeth eu gwella yn cynnwys: paru, seibiannau, argaeledd gweithwyr cymdeithasol a thimau o fewn y gwasanaeth, cysondeb gweithwyr cymdeithasol a'u llwythi achosion, y broses fabwysiadu, cyllidau, y broses honiadau, diogelu, pontio a diweddiadau.

## Yr hyn a wnaeth y gwasanaeth yn dda




Roedd llawer o atebwyr yn gadarnhaol iawn am agweddau o'u gofal. Er ei fod y peth uchaf a ddywedodd pobl y gallai'u gwasanaeth fod wedi'i wella, nododd 41% 'cymorth' fel rhywbeth y gwnaeth eu gwasanaeth yn dda. Mae hyn yn dynodi amrywiaeth o brofiadau ledled Cymru.

Yn ychwanegol, disgrifiodd 8% o atebwyr eu gwasanaeth fel 'o gymorth', yn aml yn ymwneud â sefyllfaoedd neu unigolion penodol. Dywedodd 7% hefyd fod y gwasanaeth yn dda am wrando arnynt, a dywedodd 6% fod argaeledd y gwasanaeth neu bobl yn y timau wedi'i wneud yn dda.

**"Roedd fy ngweithiwr cymdeithasol goruchwyliol bob amser ar gael pan oedd arnaf ei angen. Rwyf yn hapus gyda'r hyn a wnaeth fy ngwasanaeth – cefais brofiad da gyda nhw."**

Y peth mwyaf ond un oedd 'hyfforddiant', y gwnaeth bron i chwarter (23%) ei grybwyll fel rhywbeth y gwnaeth eu gwasanaeth yn dda. Roedd hyn yn aml yn ymwneud â hyfforddiant gan alluogi pobl i deimlo'n barod ar gyfer y rôl neu sefyllfa benodol.

**Awgrym ar gyfer ymarfer da – polisi cysylltu**

Pan fo gofalwyr maeth yn gadael eu gwasanaeth, mae'n rhaid i'r gwasanaeth gadw'u data am gyfnod neilltuol. O ystyried y dywedodd 57% y byddent yn ystyried maethu eto, byddem yn awgrymu bod gwasanaethau yn creu polisi (yn unol â gofynion diogelu data) lle maent, ar ôl blwyddyn, yn cysylltu â gofalwyr maeth i wirio'r sefyllfa ac i weld a fyddai ganddynt ddiddordeb mewn dychwelyd i faethu.

Nododd 5% o atebwyr y cyfleoedd rhwydweithio y gwnaeth y gwasanaeth eu darparu iddynt gyfarfod â gofalwyr maeth eraill yn lleol fel rhywbeth a wnaed yn dda.

Nododd niferoedd bychain (>5%) o atebwyr hefyd y canlynol fel pethau y gwnaeth eu gwasanaeth yn dda: darparu seibiannau byrion, paru, arwyddion o werthfawrogiad, y broses asesu, ymateb i Covid, a darparu cysondeb ledled gwasanaethau.

## Ystyried maethu eto

Gofynasom a fyddai'r atebwyr yn ystyried maethu eto, a dywedodd dros hanner (57%) y byddent. Roedd 8% yn dal i faethu, ond i wasanaeth gwahanol, ac roedd 5% yn ansicr a fyddent yn gwneud. Dywedodd llai na thraean (30%) na fyddent yn ystyried maethu eto.

## Argymell Maethu


Gofynasom hefyd a fyddai'r atebwyr yn argymell maethu, a dywedodd y mwyafrif (80%) y byddent yn gwneud hynny.  Roedd 8% yn ansicr, a dim ond 12% a ddywedodd na fyddent yn gwneud hynny.

## Rhagor o ddadansoddi

Trwy'r grwpiau ffocws a gynhaliom, nodasom feysydd i'w croesholi er mwyn cael darlun ehangach a chywirach o pam mae pobl wedi gadael eu gwasanaeth.

### Rhesymau dros adael i'r rheiny na fyddai'n maethu eto

Roedd ar y grwpiau ffocws hefyd eisiau deall a oedd yna unrhyw themâu cyffredin mewn 'rheswm dros adael' a oedd yn fwy cyffredin yn y 30% a ddywedodd na fyddent yn maethu eto.




Yn ddiddorol, y prif reswm dros adael ymysg y garfan gyffredinol, a'r rheiny a ddywedodd na fyddent yn ystyried maethu eto, oedd 'diffyg canfyddiadol o gymorth' gan y gwasanaeth.  Roedd y ganran o bobl a ddywedodd fod hyn yr un fath yn y ddau grŵp yn 42%.  Yn ychwanegol, dywedodd 12% a siaradodd am 'ddim yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan eu gwasanaeth' na fyddent yn ystyried maethu eto, o'i gymharu â 10% yn y boblogaeth gyffredinol o atebwyr.

Roedd yna ganran ychydig yn uwch o bobl oedd wedi gadael oherwydd 'amgylchiad personol' na fyddai'n ystyried maethu eto, sef 27% o'i gymharu â 26% yn y canfyddiadau drwodd a thro.

Disgrifiodd canran ychydig yn is o bobl yn y categori hwn 'paru' fel rheswm dros adael eu gwasanaeth, sef 21% o'i gymharu â 23% yn y boblogaeth gyffredinol o atebwyr.

Rhywbeth nad yw'n syndod, rhoes 12% o atebwyr a ddywedodd na fyddent yn maethu eto 'ymddeoliad' fel rheswm dros adael eu gwasanaeth.  Mewn gwirionedd, dywedodd pawb a roes ymddeoliad fel eu rheswm na fyddent yn ystyried maethu eto.

Ni chrybwyllwyd y rhesymau canlynol dros adael o'r brif garfan o atebwyr gan y rheiny a ddywedodd na fyddent yn ystyried maethu eto: cyfleoedd mewn gyrfaoedd eraill, newid gwasanaethau, gorchmynion mabwysiadu / gwarcheidwaid arbennig / trefniadau perthnasoedd, ac oediadau mewn cymeradwyaeth.

## Casgliad

Dros y ddwy flynedd o gyfweliadau gadael, dechreuodd nifer o themâu cyson ymddangos, sy'n helpu i egluro pam mae gofalwyr maeth yn gadael eu gwasanaethau.  Fodd bynnag, mae'r ystod o safbwyntiau hefyd yn amlygu cymhlethdod ac amrywiaeth profiadau o fewn y system faethu yng Nghymru.

Roedd yna lawer o gyfuniadau o ffactorau a arweiniodd at bobl i benderfynu gadael eu gwasanaeth.  Mae rhai ohonynt, megis materion iechyd neu symud i dŷ llai o faint heb ystafell wely sbâr, yn amlwg y tu hwnt i ddylanwad y gwasanaeth maethu.  Fodd bynnag, gallai llawer o'r amgylchiadau a ddisgrifiwyd yn ddichonol fod wedi cael sylw trwy gyfathrebu cynnar a rheolaidd rhwng y gwasanaeth a'r gofalwr maeth trwy ddarparu seibiant neu egwyl i'r unigolion dan sylw i orffwys ac i fyfyrio neu drwy wrando ar, a rhoi sylw i bryderon penodol am y paru.

Yn ôl ein dadansoddiad o'r cyfweliadau gadael hyn, gallai cynifer â 60 o deuluoedd maeth y diweddwyd eu cymeradwyaeth yn ystod y cyfnod dwy flynedd hwn fod wedi cael eu cadw gan eu gwasanaeth.  Mae hynny'n 20% o'r 300 o ofalwyr maeth[4] sydd ar hyn o bryd yn ofynnol i ddiwallu anghenion babanod, plant a phobl ifanc yng Nghymru.  Gyda 50% o'n cyfweleion yn gadael o fewn eu 5 mlynedd gyntaf o faethu, mae'n amlwg bod yn rhaid i'r

[4] Amcangyfrifwyd gan Y Rhwydwaith Maethu, Mai 2025

llywodraeth, gwasanaethau maeth a'r holl aelodau o'r tîm o amgylch y plentyn ystyried sut i weithredu'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.

Bydd hyn yn sicrhau eu bod yn cadw gafael ar deuluoedd maeth sydd wedi'u cymell i gamu i'r bwlch a chroesawu plant i'w cartrefi.  Mae'n rhaid inni wrando ar yr hyn a ddywedodd y cyn-ofalwyr maeth hyn wrthym, fel y gallwn wella cadw gafael ledled Cymru a sicrhau y gellir paru babanod, plant a phobl ifanc â theulu sy'n diwallu'u hanghenion orau.

I lawer o atebwyr, darparodd y cyfle i gymryd rhan mewn cyfweliad gadael annibynnol, a gynhaliwyd gan gwnselydd medrus, ddiweddglo buddiol ac amser gwir ei angen i fyfyrio ar yr hyn a ddisgrifiwyd yn fynych fel profiadau trawmatig.  Mae cyfweliadau gadael yn darparu adborth cyfoethog i wella ansawdd y gwasanaeth, a gallant hefyd gyfrannu rhywfaint tuag at adfer ffydd mewn maethu pan fo wedi'i golli.  Rhywfaint o'r ddysg fwyaf o'r ymchwil hwn yw'r budd trwyddo draw o gynnig cyfweliad gadael personol, annibynnol ar gyfer y cyn-ofalwr maeth a'r gwasanaeth maethu, fel ei gilydd.  Argymhellwn yn gryf fod gwasanaethau'n parhau â'r dull hwn o weithredu.

**"Rwyf i a'm plant yn teimlo na chawsom gymorth ac na wrandawyd arnom."**

### Maethu Lles

Mae Maethu Lles yn rhaglen arloesol a ddarperir gan Y Rhwydwaith Maethu yng Nghymru ac a ariannir gan Lywodraeth Cymru. Ei nod yw gwella deilliannau lles i fabanod, plant a phobl ifanc sydd â phrofiad gofal trwy ddylanwadu ar y ffordd y cydweithiwn i ddarparu'r gofal hwnnw. Darparir y rhaglen Maethu Lles yn bennaf trwy ddosbarthiadau meistr sydd â phum thema, pryd y gall pawb sy'n gysylltiedig â'r 'tîm o amgylch y plentyn' ennill y sgiliau a'r hyder sydd eu hangen y gynorthwyo pobl ifanc i gyrraedd eu potensial llawn.

### Arloeswyr

Mae Arloeswyr Maethu Lles yn ofalwyr maeth a gofalwyr sy'n berthnasoedd a fynychodd y dosbarthiadau meistr ac sy'n dymuno cyfrannu mwy ac yn ddyfnach na'u rôl yn maethu, tuag at gynorthwyo gweithgareddau ehangach yn y gwasanaeth. Mae Arloeswyr yn darparu cymuned o gefnogaeth ac yn hyrwyddo llais maethu trwy Gymru i gyd. Mae'r rhaglen Maethu Lles yn darparu cymorth strwythuredig, offer, adnoddau a chanllawiau i gynorthwyo cynllunio, recriwtio a datblygu ar gyfer y rôl ar lefel leol a chenedlaethol. Mae'n cynorthwyo 'ffordd' o weithio sy'n gwerthfawrogi'r Arloeswyr fel partneriaid cydradd yn y 'tîm o amgylch y plentyn' ehangach. Y nod yw bod pawb sy'n gysylltiedig yn cydweithio'n gydgynhyrchiol.

## Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru

Mae'r argymhellion a ganlyn yn amlinellu'r newidiadau y credwn y dylai Llywodraeth Cymru eu blaenoriaethu er mwyn recriwtio a, yn hanfodol, gallu cadw gafael ar fwy o ofalwyr maeth ledled Cymru. Bydd hyn yn golygu y bydd babanod, plant a phobl ifanc yn derbyn y gofal iawn, yn y lle iawn, ar yr adeg iawn. Dylid ystyried yr argymhellion hyn ochr yn ochr â'n hymchwil yn 2023 i gadw gafael a recriwtio gofalwyr maeth yn Lloegr[5] , gan fod cynifer o'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad hwnnw yn amlwg yn gyson â'r canfyddiadau o Gymru.

[5] Recriwtio a chadw gafael ar ofalwyr maeth yn Lloegr, Mai 2023

## Hyblygrwydd:

- Diwygio rheoliadau i sicrhau bod gwasanaethau a gofalwyr maeth yn eglur ynglŷn â'r hawl i gymryd seibiant o faethu, gyda graddfeydd amser pendant a pha asesiadau neu wiriadau sy'n ofynnol wrth ddychwelyd.

## Cymorth:

- Parhau i ariannu'r rhaglen 'Maethu Lles' i gynorthwyo gofalwyr maeth ac i dyfu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r parch tuag at rôl gofalwyr maeth yn y tîm o amgylch y plentyn.

- Archwilio buddion ehangu'r rhaglen Mockingbird, sydd ar hyn o bryd ond yn cael ei darparu gan un awdurdod lleol, i wella cadw gafael ledled Cymru.

- Cyflwyno mesurau newydd i roi sylw i drosiant a llwythi achosion gweithwyr cymdeithasol, sy'n effeithio ar gysondeb a chymorth i deuluoedd maeth. Gall hyn gynnwys cyflwyno deddfwriaeth llwyth achosion a phatrymau sifftiau i ddisodli'r diwrnod 9.00yb tan 5.00yp cyfredol i weithwyr cymdeithasol, yn ogystal â chymorth cydnerth y tu allan i oriau swyddfa ac adolygu fframweithiau cymwysterau gweithwyr cymdeithasol a systemau cylchdroadol i rai sydd newydd gymhwyso.

- Diwygio rheoliadau i sicrhau bod gan bob gofalwr maeth fodd o gael at berson cymorth cymeradwy a asesir i ddarparu gofal dros nos neu ofal cyfnod hwy i'r plant y maent yn eu maethu.

## Cysondeb:

- Diwygio rheoliadau i sicrhau y gweithredir ac y monitrir polisi a dull gweithredu paru safonedig ledled Cymru.
- Cwmpasu, ymgynghori a chyflwyno cofrestr i ofalwyr maeth yng Nghymru i gyfrannu rhywfaint tuag at roi sylw i bryderon parthed statws a pharch tuag at y rôl, gan wneud y defnydd gorau o ofalwyr maeth yng Nghymru ac i sicrhau gwell paru.
- Gwella modd o gasglu data am faethu yn genedlaethol a rhoi cyhoeddusrwydd i'r data hwn i sicrhau gwelliant parhaus a gweithredu

pendant i wella recriwtio a chadw gafael ar ofalwyr maeth yng Nghymru. Er enghraifft, gellir coladu data cyfweliadau gadael yn genedlaethol.

- Rheoleiddio i gyflwyno proses cyfweliad gadael maethu safonol a dyrannu staff i barhau i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn lleol.

# Argymhellion ar gyfer gwasanaethau

Mae'r argymhellion a ganlyn yn amlinellu'r newidiadau y credwn y dylai gwasanaethau maethu eu blaenoriaeth er mwyn cadw gafael a recriwtio mwy o ofalwyr maeth yng Nghymru.

## Arferion ataliol a chefnogol:

- Sicrhau bod cymorth 24/7 ar gael i ofalwyr maeth trwy wneud newidiadau i'r patrymau gweithio i staff gofal cymdeithasol a darparu cymorth o ansawdd uchel y tu allan i oriau swyddfa.
- Darparu cymorth cyson i bob gofalwr maeth yn ystod cyfnod o bryder neu ymchwiliad, ni waeth beth fo'r profiad, a chomisiynu gwasanaethau eiriolaeth a chyflafareddu i sicrhau bod y gefnogaeth hon yn annibynnol ac o ansawdd uchel.
- Cynnal allgymorth rhagweithiol i ofalwyr maeth sy'n ystyried gadael i archwilio opsiynau maethu eraill a/neu i wneud y defnydd gorau o ddull gweithredu a seilir ar berthynas pan fo gofalwyr maeth yn ystyried ymddiswyddo. Roedd yna ormod o ofalwyr maeth na chysylltwyd â nhw gan eu gwasanaeth maethu o gwbl neu'n teimlo dan bwysau i adael.
- Monitro colledion disgwyliedig mewn gofalwyr trwy strategaethau recriwtio a chadw gafael blynyddol a ffurfio cynlluniau gweithredu ataliol. Sicrhau bod gan bob gofalwr maeth rwydwaith cymorth cymeradwy, neu fodd o gael at Mockingbird, i gynorthwyo gofalwyr gyda seibiannau byrion a chymorth cofleidiol.

## Hyfforddiant a Datblygu:

- Ehangu'r pynciau hyfforddi sydd ar gael i ofalwyr maeth a monitro ansawdd a chysondeb.
- Cynnal sesiynau sefydlu blynyddol i weithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso ynglŷn â maethu.

- Defnyddio goruchwyliaeth i fyfyrio ar baru, ac i gymryd addysg i'w wreiddio yn y gwasanaeth.

## Gwelliannau cyfathrebu a gweithredu:

- Cynhyrchu diweddariadau misol neu chwarterol i'r gwasanaeth gan uwch-reolwyr i fagu cysylltiad a pharch.
- Rhannu gwybodaeth lawn a didwyll am blant cyn lleoli, yn cynnwys eglurder am gyfyngiadau paru.
- Sicrhau bod y 'templedi paru Cymru gyfan' y cytunwyd arnynt a chanllawiau arferion gorau wedi'u gwreiddio mewn cyflenwi gwasanaethau.
- Cyflwyno gwell peirianweithiau i gynorthwyo sefydlogrwydd i blant a gofalwyr maeth pan fo hyn mewn perygl o chwalu. Gweithredu canllawiau AFKA (Cymdeithas ar gyfer Maethu, Gofal Perthynas a Mabwysiadu) ar wella sefydlogrwydd lleoliadau[6].
- Gwneud gofalwyr maeth yn ymwybodol o brotocol[7] trosglwyddo'r Rhwydwaith Maethu a sicrhau y caiff ei ddilyn.

# Arferion da

Amlygwyd y gweithredoedd canlynol fel effeithiol gan gyfranogwyr grwpiau ffocws ac maent yn adlewyrchu arferion da cyfredol a dichonol. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o fentrau y gall gwasanaethau eu gweithredu i wella ac i bersonoli cymorth i ofalwyr maeth.

## Cydnabyddiaeth ac ymgysylltiad:

- Cynnal gwobrau cydnabyddiaeth yn y cnawd a thrwy gylchlythyrau misol.
- Sicrhau bod yna gydnabyddiaeth wedi'i phersonoli trwy alwadau ffôn, ymweliadau neu ddiolchiadau ysgrifenedig.
- Blaenoriaethu ymgysylltu wyneb yn wyneb dros gyfathrebu ysgrifenedig lle y bo'n bosibl.

---

[6] AFKA Cymru, Gwella Sefydlogrwydd Lleoliadau i Blant sy'n Derbyn Gofal mewn Lleoliadau Maeth
[7] Trosglwyddo protocol gofalwyr maeth Cymru (Saesneg)

- Cynnal digwyddiadau dathlu cynhwysol ar gyfer gwyliau allweddol i greu cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu cymdeithasol a chymunedol.
- Cynnal gweithgareddau cymdeithasol misol megis boreau coffi, gan gynnwys gofalwyr maeth a staff gwasanaethau i gryfhau perthnasoedd.

## Ailgysylltu a recriwtio:

- Dylai gwasanaethau ailgysylltu â chyn-ofalwyr maeth i archwilio cyfleoedd dychwelyd ar ôl blwyddyn.
- Caniatáu i gyn-ofalwyr maeth gael modd o gael at y buddion am atgyfeirio pobl i'r gwasanaeth.
- Cynnig rhaglenni cyn-fyfyrwyr i gynnal cysylltiadau a dysgu gan gymheiriaid. Cynnig opsiynau maethu hyblyg i ofalwyr maeth sy'n ystyried gadael, megis dod yn 'ofalwyr seibiant byr'.

# Atodiad 1

## Cwestiynau Cyfweliad Gadael

*Gofynnol

## Adran Un

1. Enw*
2. Ar ba ddyddiad y mynychoch eich cyfweliad gadael?*
3. Faint yw'ch oed?*
4. Dyddiad cymeradwyo*
5. Dyddiad gorffen maethu*
6. Beth oedd eich cymhelliad dros faethu?*
7. Enw'r gwasanaeth*

## Adran Dau – Telerau Cymeradwyaeth

8. Ystod oedran*
9. Nifer y plant*
10. Parhad*
11. A oeddech yn fodlon â'r telerau cymeradwyaeth?*
12. Unrhyw gymeradwyaeth flaenorol fel gofalwr maeth*

## Adran Tri – Pwy oedd aelodau'r aelwyd ar adeg y maethu

13. Nifer oedolion*
14. Niferoedd plant iau na 18 oed*

## Adran Pedwar – Cyn darfod â maethu, pwy oedd yn eich gofal

15. Nifer y plant*
16. A oeddynt yn perthyn ai peidio?*
17. Beth oedd eu hoedrannau?*
18. Pa rywedd oeddynt?*
19. A symudodd unrhyw blant o ganlyniad i ddiweddu maethu?*

20. Pa rwydweithiau cymorth oedd gennych ar waith?*
21. Gan ystyried eich holl brofiadau fel gofalwr maeth, a allwch egluro'r rhesymau pam rydych wedi penderfynu gadael y gwasanaeth maethu?*
22. A oedd eich penderfyniad i adael maethu wedi'i gynllunio ynteu heb ei gynllunio?*
23. Penderfyniad i adael maethu – ateb estynedig*
24. Ar raddfa o 1-10, a oedd maethu cystal â'ch disgwyliadau?*
25. Ar raddfa o 1-10, pa mor dda y teimlwch y gwnaeth y broses asesu eich paratoi i ddod yn ofalwr maeth? *
26. Ar raddfa o 1-10, pa mor dda y dywedech y gwnaeth yr hyfforddiant paratoi y gwnaethoch ei fynychu eich paratoi i ddod yn ofalwr maeth? *
27. Ar raddfa o 1-10, pa mor dda y teimlwch y gwnaeth y plant y gofynnwyd ichi ofalu amdanynt baru â'ch teulu a'ch set sgiliau?*
28. A gynigiodd y gwasanaeth unrhyw un o'r cymorth a ganlyn i chi fel gofalwr maeth newydd ei gymeradwyo?*
29. Faint o wahanol weithwyr cymdeithasol o'r tîm maethu a ddyrannwyd i weithio gyda'ch teulu yn ystod cymeradwyaeth?*
30. Ar raddfa o 1-10 drwyddi draw, pa mor dda y byddech yn graddio'r profiad gyda'r tîm maethu?*
31. Ar raddfa o 1-10, pa mor dda y byddech yn graddio'r profiad o weithio gyda'r tîm gwaith cymdeithasol plant?*
32. A allai'ch gwasanaeth fod wedi gwneud unrhyw beth gwahanol i'ch galluogi i barhau i faethu?*
33. Helaethwch ar y cwestiwn blaenorol, os gwelwch yn dda.*
34. Beth mae'ch gwasanaeth maethu wedi'i wneud yn neilltuol o dda?*
35. Beth a allai'ch gwasanaeth ei wneud i wella ymarfer ar gyfer gofalwyr maeth y dyfodol, eu teuluoedd a phlant maeth?*
36. A fyddech yn ystyried maethu eto?*
37. A fyddech yn argymell maethu i eraill?*
38. Unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu rhannu am eich profiad o faethu.*

## Adran Pump – manylion cysylltu

39. Os hoffech gadw'n hollol gyfoes â'n hyfforddiant, gwaith a gwasanaethau sydd ar y gweill trwy'n e-gylchlythyr chwarterol ac e-byst, darparwch eich cyfeiriad e-bost inni, os gwelwch yn dda.

**Y Rhwydwaith Maethu yw elusen faethu a sefydliad aelodaeth blaenllaw'r DU. Ni yw'r rhwydwaith hanfodol ar gyfer maethu, gan ddod â phawb sy'n ymwneud â bywydau plant mewn gofal maeth at ei gilydd.**

Rydym yn cefnogi gofalwyr maeth i drawsnewid bywydau plant ac rydym yn gweithio gyda gwasanaethau maethu a'r sector ehangach i ddatblygu a rhannu arferion gorau.

Rydym yn gweithio i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc mewn gofal maeth yn profi bywyd teulu sefydlog ac rydym yn angerddol am y gwahaniaeth y mae gofal maeth yn ei wneud. Rydym yn hyrwyddo maethu ac yn ceisio creu newid hanfodol i sicrhau bod gofal maeth y gorau y gall fod.

Rydym wedi bod yn arwain yr agenda maethu ers 50 mlynedd, gan ddylanwadu ar a llunio polisi ac arferion ar bob lefel.


thefosteringnetwork

@fosteringnet

@thefosteringnetwork

thefosteringnetwork.org.uk

Swyddfa gofrestredig 87 Blackfriars Road, Llundain SE1 8HA



Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr 280852 ac yn yr Alban SC039338
Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr fel cwmni cyfyngedig rhif 1507277 cofrestriad TAW 231 6335 90